



Tirweddau
Cymru
Landscapes
Wales



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

ADRODDIAD EFFAITH
FFERMIO BRO
2025-26



Rhagair y Gweinidog

Rwy'n falch o gyflwyno'r adroddiad hwn ar Ffermio Bro—rhan bwysig o'n gwaith i adeiladu Cymru fwy gwydn a chynaliadwy, lle mae ein ffermwyr, ein cymunedau a'n hamgylchedd naturiol i gyd yn ffynnu gyda'i gilydd.

Drwy Ffermio Bro, rydym yn cyflawni newid ymarferol ar y materion sydd bwysicaf: adfer natur, gwella ansawdd dŵr, a helpu cymunedau i ymateb i effeithiau cynyddol newid hinsawdd—gan gefnogi ffermio yng Nghymru fel sylfaen ein heconomi wledig.

Mae ein Parciau Cenedlaethol a'n Tirweddau Cenedlaethol yn dirweddau byw a gweithiol, wedi'u cynnal dros genedlaethau gan ffermio, diwylliant a chymuned. Mae diogelu a gwella'r lleoedd hyn yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth â'r rhai sy'n eu hadnabod orau. Mae Ffermio Bro yn adlewyrchu ein hymrwymiad i'r dull hwnnw, gan ddod â ffermwyr, cymunedau ac arbenigedd lleol ynghyd i gyflawni prosiectau uchelgeisiol, dan arweiniad lleol, sydd ag effaith genedlaethol.

Mae'r cynllun eisoes yn sicrhau canlyniadau go iawn—adfer perthi/gwrychoedd, dolydd a choetiroedd, diogelu ein hafonydd, a chryfhau iechyd ecolegol a chymeriad y tirweddau hyn. Nid natur yn unig sy'n elwa ar y camau hyn—maent hefyd yn gwneud busnesau fferm yn fwy gwydn a chynaliadwy, gan gefnogi priddoedd iachach, rheolaeth well ar ddŵr, llai o risg a chynhyrchiant hirdymor cryfach.

Mae'r ymateb cryf gan ffermwyr yn dangos gwerth y dull hwn. Yn ei flwyddyn gyntaf, cefnogodd Ffermio Bro 56 o brosiectau ar draws 200 o ffermydd. Megis dechrau yw hyn. Gyda chyllideb fwy, rydym yn cynyddu'r cyflawni—gan gefnogi prosiectau mwy uchelgeisiol ar raddfa tirwedd sy'n darparu manteision parhaol i natur, yr hinsawdd a chymunedau gwledig ledled Cymru.

Rydym yn benderfynol o adeiladu ar y momentwm hwn, gan weithio gyda ffermwyr a chymunedau i adfer natur ar raddfa eang, cefnogi system fwyd gynaliadwy, a sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cyflawni dros ein pobl nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

LLYR GRUFFYDD AS

Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd

Cyflwyniad gan Gadeirydd Tirweddau Cymru

Ers ei lansio, mae Ffermio Bro wedi dangos grym cydweithio – dod â ffermwyr, cymunedau lleol, a phartneriaid ynghyd i hyrwyddo dulliau sy'n parchu ein tirweddau ac yn cofleidio syniadau arloesol ar yr un pryd.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r hyn mae Ffermio Bro wedi'i gyflawni hyd yma:

Ymgysylltu cryf ledled Cymru: Derbyniwyd dros 400 o ddatganiadau diddordeb yn ystod y flwyddyn gyntaf, â'u gwerth dros £7m, gan ddangos bod awydd yno ar gyfer amaethu natur-gyfeillgar yn ein Tirweddau Dynodedig, ac adlewyrchu agwedd gadarnhaol ffermwyr tuag at y cynllun.

Buddsoddiad sylweddol: Dyrannodd Llywodraeth Cymru £2 miliwn i'r cynllun, gydag £1.6 miliwn yn mynd yn uniongyrchol i ffermwyr ar gyfer gwaith cyfalaf sy'n gwella bioamrywiaeth a gwytnwch.

Darpariaeth gydweithredol: Bu ymgynghorwyr lleol penodol yn cynorthwyo ffermwyr i ddatblygu prosiectau sy'n cwmpasu nifer o ffermydd, gan greu effaith ar raddfa tirwedd. Bu ffermwyr yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, gan ymuno â Phaneli Asesu Lleol ochr yn ochr ag ecolegwyr ac arbenigwyr eraill.

Canlyniadau amgylcheddol: Ymhlith y prosiectau a ariannwyd ym flwyddyn un, roedd adfer gwrychoedd, creu cynefinoedd gwlyptir a thorlannol, adfer gweirgloddiau, a phlannu coed wedi'i dargedu, â'r cyfan yn cyfrannu at wytnwch ecosystemau ac addasu i'r hinsawdd.

Ffermio wedi'i ddiogelu at y dyfodol: Bydd cynefinoedd a gaiff eu creu dan Ffermio Bro yn cyfrif tuag at ofynion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan sicrhau manteision hirdymor i ffermwyr ac i natur fel ei gilydd.



Wrth edrych ymlaen, byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod Ffermio Bro yn parhau i ddarparu manteision i bobl, i natur, ac i Dirweddau Dynodedig am genedlaethau i ddod.


Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth ac am ymuno â ni ar y daith hon.

ANDREW BLAKE

Cyn-gadeirydd, Tirweddau Cymru




Tirweddau
Cymru
Landscapes
Wales



Tirweddau Dynodedig yng Nghymru

 Parc Cenedlaethol

 Tirwedd Genedlaethol



Mae ein tri Pharc Cenedlaethol a phum Tirwedd Genedlaethol (Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol/AHNEau gynt) yn gorchuddio chwarter arwynebedd tir Cymru. Mae pobl yn byw ac yn amaethu yn y llefydd hyn, ac maent o werth amhrisiadwy i natur, diwylliant a threftadaeth.

Cafodd Ffermio Bro ei greu i gydnabod hynny – a’r rôl ganolog sydd gan y Tirweddau Dynodedig hyn i’w chwarae yn adferiad natur yng Nghymru. Wedi ei lansio ym mis Ebrill 2025, dyma gynllun gan Lywodraeth Cymru i ffermwyr mewn Tirweddau Dynodedig. Mae’n dyfarnu cyllid ar gyfer gweithgareddau sy’n gwella cynefinoedd, yn cryfhau ecosystemau ac yn cefnogi adferiad natur.

Yn wahanol i gynlluniau eraill, mae’n cael ei ddarparu’n lleol gan Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol a chyrff y Tirweddau Cenedlaethol, gyda thîm neilltuol o swyddogion sy’n nabod ac yn deall eu tirweddau.

Mae ffermwyr a thirfeddianwyr yn ymgeisio’n uniongyrchol i gyrff Tirweddau Dynodedig, sydd wedi gosod blaenoriaethau lleol, ac yn dyfarnu cyllid ar gyfer gweithgareddau sydd yn adlewyrchu anghenion lleol. Gwneir penderfyniadau am y ceisiadau gan y Dirwedd ei hun ar gyfer prosiectau bach (llai na £15,000 yn 2026/27) – a chan Banel Asesu Lleol sy’n cynnwys aelodau o’r cymunedau ffermio a chadwraeth ar gyfer prosiectau mwy.

Mae’r Dirwedd Ddynodedig yn trin pob cam o’r broses, gydag un pwynt cyswllt lleol i’r ymgeisydd – gan helpu i wneud ymgeisio’n gyfleus ac yn syml ar gyfer ffermwyr.

Rydym yn hyblyg a gallwn gyllido unrhyw weithgaredd bron sy’n cefnogi natur – a gallwn ni wneud hynny hyd at 100% o’r gost os nad yw’r prosiect yn dod ag unrhyw fudd economaidd i’r ffermwr. Mae hyn yn ein galluogi i roi gwell cefnogaeth i ffermwyr, ac i ddarparu cynlluniau adfer natur sydd yn wirioneddol arloesol.

Rydym wedi derbyn cefnogaeth gyson gan ffermwyr ac undebau ffermwyr, sydd yn croesawu’r math hwn o gyllid hyblyg, lleol. Mae Ffermio Bro yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol a chyfleoedd cyllido gwell sydd yn helpu ffermwyr mewn Tirweddau Dynodedig mewn cyfnod sy’n anodd i natur ac i amaethyddiaeth fel ei gilydd.

Mae Ffermio Bro yn gynllun cydweithredol sy’n darparu prosiectau ar draws nifer o ffermydd er mwyn cyflawni nod cyffredin. Yn y flwyddyn gyntaf, roedd tua hanner y prosiectau yn rhai cydweithredol – ond yn y dyfodol, rydym yn rhagweld y bydd bron pob prosiect yn cwrddu mwy nag un fferm, gan ysgogi newid ar raddfa tirwedd. Un o swyddogaethau allweddol ein swyddogion lleol ydy helpu i ddatblygu’r cyweithiau hyn.



Ein cyflawniadau yn 2025/26

200

FFERM

wedi derbyn cyllid ar draws
81 gwahanol brosiect

£1.52m
WEDI'I DDYFARNU AR GYFER
gwaith cyfalaf

45

**cydweithrediad
newydd**

wedi'u creu yn 2025/26 gan

Ffermio Bro

56*

prosiect
cydweithredol

*69% o'r holl brosiectau

21km

o afonydd a nentydd
yn elwa o brosiectau

trwy goridorau ar hyd ochrau
nentydd, mesurau ansawdd dŵr a
gweithgareddau Rheoli
Llifogydd Naturiol – gyda buddion
sylweddol ymhellach i lawr.

43.6km
o wrychoedd

wedi'u creu
neu eu hadfer

47
o byllau
wedi'u creu

98ha

o goetir
wedi'u plannu, eu
hadfer neu eu gwella

83,362

o goed brodorol
wedi'u plannu

*ac eithrio planhigion gwrych



4.5km o waliau
cerrig
sych

wedi'u creu
neu eu hadfer

2.4km

o hawliau tramwy
wedi'u gwella gan brosiectau





Astudiaethau Achos Cyflwyniad

Bellach, mae 81 prosiect wedi derbyn cyllid gan Ffermio Bro, gan gwmpasu 200 o ffermydd ar draws yr wyth Tirwedd Ddynodedig.

Er bod pob un o'n prosiectau wedi bod yn rhai cyffrous, rydym wedi dewis detholiad bychan i'w rannu yma er mwyn dangos y ffyrdd y buom yn cefnogi ffermio a natur yng Nghymru.

Ar y tudalennau canlynol, fe welwch un astudiaeth achos ar gyfer pob un o'r Tirweddau Dynodedig.

Am ragor o wybodaeth am unrhyw rai o'r rhain, cysylltwch â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol neu'r corff Tirwedd Genedlaethol perthnasol. Mae manylion i'w cael ar www.tirweddaucymru.org.uk/ffermio-bro-cymraeg

Ty'n Mynydd

Diogelu cynefinoedd gwerthfawr a hawliau tramwy cyhoeddus

Mae Ty'n Mynydd, sydd ger Llanddona yn Nhirwedd Genedlaethol Môn, yn cynnal rhostir iseldir a choed pori gwasgarog, sy'n ddau gynefin sensitif a phwysig.

Drwy raglen Ffermio Bro, mae gwaith rheoli wedi'u dargedu wedi'i gynnal er mwyn gwella cyflwr y cynefinoedd gwerthfawr hyn a chynnal mynediad i'r cyhoedd ar draws y safle.

Roedd y prosiect yn cynnwys gosod ffensys da byw newydd er mwyn galluogi pori cadwriaethol gan wartheg a merlod mynydd y Carneddau. Mae angen rheoli'r cynefinoedd hyn yn rhagweithiol i atal prysgwydd rhag ymledu a gweiriau geirwon rhag cael goruchafiaeth. Mae pori a reolir yn ofalus yn helpu i gynnal strwythur llystyfiant amrywiol, yn hyrwyddo adfywio grug, ac yn creu'r amodau agored sydd eu hangen ar rywogaethau nodweddiadol rhostiroedd. Drwy ailgyflwyno pori dan drefn strwythuredig, mae'r safle bellach ar y llwybr iawn tuag at adferiad hirdymor i'r cynefinoedd.

Ynghyd â rheoli cynefinoedd, mae'r prosiect hefyd wedi cefnogi'r gwaith o gynnal llwybr cyhoeddus sy'n croesi'r safle. Mae llwybrau mynediad eglur sy'n cael eu cynnal yn dda yn sicrhau y gall trigolion ac ymwelwyr barhau i fwynhau'r dirwedd.

Mae'r prosiect hwn yn dangos sut gall cyllid Ffermio Bro gyflawni canlyniadau integredig – adfer cynefinoedd blaenoriaeth, cefnogi rheolaeth tir cynaliadwy, a chynnal mynediad mewn tirweddau gwarchodedig.



Ynys Môn
Tirwedd
Cenedlaethol

Anglesey
National
Landscape

Mae'r prosiect hwn wedi dod ar adeg dda i ni. Mae'r prosiect wedi ein galluogi i gwblhau'r gwaith roedden ni'n awyddus i'w wneud gryn amser yn ôl ond bod angen ychydig o gymorth ychwanegol arnon ni. Mae'r cyllid hwn wedi bod yn hyblyg ac mae cael rhywun yn dod allan i weld beth oedd gennym mewn golwg wedi gwireddu ein gweledigaeth. Mae modd rheoli'r fferm rŵan fel rydyn ni eisiau ei wneud.

Y tîrfeidiannwr

Fferm Llangwyfan

Adfywio coetiroedd hynafol

Mae Fferm Llangwyfan yn gorwedd yng nghysgod Bryngaer Penycloddiau gyda golygfeydd godidog dros Ddyffryn Clwyd a thu hwnt.

Y prif faes oedd o ddiddordeb i'r tîrfeddianwyr Julia a Tudor Hughes yn eu cais oedd cysylltu'r coetiroedd hynafol ar eu tir trwy raglen o adfer gwrychoedd, a rheoli eu coetiroedd drwy strategaeth i waredu coed ag afiechydon a theneuo rhywogaethau goresgynnol er mwyn cael ecosystem fwy cytbwys o rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion brodorol. Roedd gosod ffensys o amgylch y coetiroedd gyda chyllid Ffermio Bro yn elfen sylfaenol o'r gwaith hwn.

Mae'r agweddau ymarferol sydd ynghlwm ag ymgorffori'r gwaith o dorri coed, ffensio'r coetir ac adfer gwrychoedd ynghyd â chynnal y gwaith pob dydd o redeg y fferm yn dipyn o her i Julia a Tudor ac ar fwy nag un achlysur, mae mewnbwn tîm Ffermio Bro wedi bod yn allweddol wrth benderfynu ar y camau nesaf i'w cymryd er mwyn sicrhau bod y prosiect yn mynd rhagddo'n llyfn.



Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd
Cenedlaethol

Clwydian Range
and Dee Valley
National
Landscape

Gwnaethon ni gais gyda gwaith arfaethedig i'w ystyried ac roedden ni wrth ein boddau bod rhai o'n cynigion wedi llwyddo i gael cyllid prosiect. Roedd arweiniad tîm Ffermio Bro yn darparu canllawiau manwl, cyngor technegol ac ymarferol cyn ac yn ystod y gwaith yn hollbwysig ac yn rhan anhepgor o'r holl brosiect.

JULIA HUGHES
Ffermwr





Cynaeafu Hadau Dathlu llwyddiant lleol mewn ffermio cynaliadwy

Yng nghanol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae syniad syml yn trawsnewid y ffordd y mae ffermydd lleol yn gofalu am eu tir. Drwy gynllun Ffermio Bro, mae'r ffermwr Paul Matthews wedi buddsoddi mewn Cynaeafwr Hadau Logic, teclyn ymarferol sy'n creu priddoedd iachach a mwy o gyfoeth o ran bioamrywiaeth.

Diwrnod arddangos wedi sbarduno momentwm

Mewn digwyddiad arddangos diweddar ar y fferm, daeth ffermwyr a phartneriaid ynghyd i weld y cynaeafwr ar waith a sut mae modd adfer ac ehangu gweirgloddiau sydd â chyfoeth o rywogaethau. Mae gweirgloddiau'n darparu cynefin hollbwysig i beillwyr fel gwenyn a gloynnod byw, yn storio carbon, yn cadw dŵr, yn gwella iechyd y pridd, ac yn cynnig datrysiad sy'n seiliedig ar natur i lifogydd.

Cafodd y rhai a fynychodd fagiau o hadau brodorol, yn barod i'w plannu mewn gweirgloddiau newydd a dechrau gwaith adfer ar eu ffermydd eu hunain.


Datblygu rhwydwaith ag effaith arhosol

Gan weithio gyda Sefydliad Afonydd Gwy ac Wysg, mae Paul wedi gwneud arolwg o'r gweirgloddiau presennol ac wedi ymchwilio i weld sut gall gwyndwnnydd aml-rywogaeth wella ymdreiddiad dŵr a gwaith y pridd.

Gyda chefnogaeth gan y Parc Cenedlaethol a Ffermio Bro, mae'n cynaeafu hadau o'i weirglodd ei hun a'i wasgaru dros ragor o gaeau, gan greu clytwaith cynyddol o gynefinoedd wedi'u hadfer a thirwedd fwy gwydn.

Rydyn ni'n gobeithio adeiladu ymhellach ar y cysylltiadau a wnaed â ffermydd lleol er mwyn datblygu rhwydwaith o weirgloddiau sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau. Mae cael y cynaeafwr hadau wrth law yn golygu y gallwn ni ei ddefnyddio ar wahanol adegau i dargedu rhywogaethau penodol wrth iddyn nhw ddod yn barod. Mae hi hefyd yn bosib mynd allan pan fydd y tywydd yn dda.

PAUL MATTHEWS
Ffermwr



Dalgylch Dyffryn Conwy **Gweithredu ar y cyd dros ddŵr glanach a gwytnwch hinsoddol**



Ar draws Dalgylch Dyffryn Conwy, mae pedwar grŵp – rhai wedi’u ffurfio o’r newydd, eraill wedi hen ymsefydlu – yn dod ynghyd i fynd i’r afael â dwy flaenoriaeth frys: gwella ansawdd dŵr ac arafu llif dŵr drwy’r dirwedd.


Gyda chefnogaeth rhaglen Ffermio Bro, mae eu gwaith yn cryfhau ac yn datblygu ar sylfeini gwaith sydd eisoes wedi cyflawni cynnydd drwy Brosiect Conwy Uchaf, gan greu ymdrech gydlynus i ddiogelu cynefinoedd, lleihau risgiau llifogydd, a hyrwyddo rheoli tir yn gynaliadwy.

Mae pob grŵp yn cyfrannu gwybodaeth leol werthfawr ac arbenigedd ymarferol, gan droi eu cyd-ddyheadau yn gamau gweithredu effeithiol ar lawr gwlad. Gyda’i gilydd, byddant yn canolbwyntio ar adfer parthau torlannol, plannu coed gwasgaredig a nodweddion coetiroedd, creu gwlyptiroedd, gwahanu dŵr glân a dŵr budr ar ffermydd, a gweithredu dulliau rheoli llifogydd naturiol.

Mae’r ymyriadau hyn sy’n seiliedig ar natur yn helpu i hidlo gwaddodion a maetholion cyn iddyn nhw gyrraedd cyrsiau dŵr, a hefyd yn arafu symudiad dŵr ar draws y dirwedd.

Mae’r effaith gyfun yn cynnwys briglifau is mewn afonydd, ecosystemau iachach, gwell ansawdd dŵr, a rhagor o wytnwch yn wyneb glawiad eithafol.

Mae cydweithio yn greiddiol i’r cynllun hwn. Mae gweithio ar raddfa dalgylch yn galluogi’r partneriaid i ddarparu manteision sy’n ymestyn y tu hwnt i ffermydd neu gymunedau unigol. Mae Ffermio Bro yn darparu’r fframwaith ar gyfer gweithredu cydlynus, gan helpu i ddatgloi atebion sy’n gweithio ar raddfa fawr ond eto’n parhau dan arweiniad lleol. Mae tîrfeiddianwyr yn chwarae rôl ganolog, gan gydgyllunio mesurau sy’n cefnogi amaethu cynhyrchol ochr yn ochr â chynefinoedd ffyniannus. Drwy gysylltu Ffermio Bro â mentrau ehangach ar raddfa tirwedd megis Prosiect Conwy Uchaf, mae’r bartneriaeth hon yn dangos sut y gall gweithredu ar y cyd ddarparu manteision i gymunedau, i fywyd gwyllt, ac i’r amgylchedd yn ehangach.



Mae'r pedwar grŵp hwn (a ddangosir ar y map uchod) yn cwmpasu 19 fferm – sydd wedi eu meithrin a'u cefnogi drwy waith y cynghorydd Ffermio Bro lleol. Mae pob grŵp yn dod â gwybodaeth leol werthfawr ac arbenigedd ymarferol, gan droi uchelgeisiau cyffredin yn weithredoedd effeithiol ar lawr gwlad. Gyda'i gilydd, maent yn canolbwyntio ar adfer rhanbarthau torlannol, plannu coed, creu gwlyptiroedd, gwahanu dŵr glân a budr ar ffermydd, a rhoi technegau rheoli llifogydd naturiol ar waith.

Ym mlwyddyn gyntaf Ffermio Bro, mae'r pedwar cydweithrediad yn Nyffryn Conwy wedi uno'r ffermydd hyn i gyflawni'r gwaith o:

Blannu cannoedd o goed, gan gynnwys coridorau ar hyd ochrau nentydd a phlannu gwasgarog ar lethrau serth er mwyn arafu llif y dŵr	Creu ac adfer 3.4km o wrychoedd, bron i 1km o waliau cerrig sych ac 1.1km o argloddiau pridd – gan gynnwys ar hyd lliwybrau cyhoeddus lleol	Helpu i reoli'r system ddraenio ac amddiffyn y dalgylch afon rhag dŵr ffo drwy osod ffosydd, a chreu argaeau yn y ffosydd draenio i greu pyllau bychain	Gosod ffens i atal stoc rhag crwydro at afonydd a nentydd, gyda 2.8km o goridor newydd ar hyd ochrau nentydd	Clirio prysgwydd o amgylch y dalgylch a chreu 11 pwll newydd i warchod a chreu cynefinoedd ar gyfer peillwyr, adar a mathau eraill o fywyd gwyllt	Creu 3 perllan draddodiadol newydd ar ffermydd yn yr ardal
---	---	---	--	---	--



Mae fy mhrofiad o Ffermio Bro eleni wedi bod yn un cadarnhaol. Dw i'n gallu gweld manteision amaethyddol ac amgylcheddol y gwaith prosiect a wnaed ar ein fferm. Drwy drafod a datblygu cynllun ar y cyd, rydyn ni wedi gallu cefnogi system y fferm a'r amgylchedd fel ei gilydd. Y cryfder allweddol i ni ydy'r berthynas un-i-un.

HEFIN JONES
Tyddyn Gethin, Bro Machno

Gŵyr
Tirwedd
CenedlaetholGower
National
Landscape

Fferm Great Pitton

Arloesi ffensio rhithiol ar gyfer pori arfordirol mwy diogel a chlyfar

Ers tro, bu'r ffermwr Tom Higgs yn pori'r arfordir dramatig o amgylch Bae Mewslade gyda defaid. Gan newid i wartheg er mwyn gwella cyflwr y cynefin, roedd her newydd yn wynebu Tom: roedd da byw sy'n llai heini, ac yn fwy o ran maint yn golygu bod y risg o gwmpo oddi ar y clogwyni'n uwch.

Trodd Tom at Ffermio Bro am gymorth. Ei ddatrysiad? Coleri ffensio rhithiol sy'n galluogi ffiniau anweledig, manwl gywir - sy'n cadw gwartheg oddi wrth glogwyni peryglus wrth reoli'r glaswelltir sensitif yn effeithiol ar yr un pryd.

Datrysiad cydweithredol

Drwy weithio ar y cyd i gefnogi Tom, ariannodd Ffermio Bro y coleri gwartheg a thalodd Cyfoeth Naturiol Cymru am y tanysgrifiad monitro - gan sicrhau hyfywedd hirdymor.

Hybu bioamrywiaeth

Mae Fferm Great Pitton hefyd yn rhan o gydweithrediad peillwyr Gŵyr Ffermio Bro, sy'n cynorthwyo gwenyn a gloŷnnod byw prin i ehangu eu hamrywiaeth. Yn ogystal, mae Ffermio Bro yn cefnogi Tom gyda defnyddio ffensio rhithiol i gadw gwartheg allan o gynefin gwiberod hysbys. Gyda diogelwch da byw a bywyd gwyllt brodorol ar eu hennill o'r ddwy ochr.



Bydd y coleri gwartheg yn gwella rheolaeth ar SoDdGA Arfordir Gŵyr yn fawr. Bydd y dechnoleg hon yn galluogi pori er lles cadwraeth sy'n hanfodol o ran cynnal y glaswelltir a'r rhostir arfordirol sensitif.

NICOLA BROADRIDGE
Swyddog yr Amgylchedd CNC



Mae diddordeb cynyddol mewn systemau ffensio rhithiol ar gyfer gwartheg, yn enwedig ar gyfer pori cadwraeth a rheoli cynefinoedd lle nad yw ffiniau confensiynol o bosibl yn ymarferol. Mae'r cynllun Ffermio Bro wedi gallu ariannu sawl prosiect arloesol sy'n cynnwys y systemau hyn, ond dim ond lle cedwir at ganllawiau llym ynghylch lles anifeiliaid, yn unol â chynghor Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol.

Mae'r coleri GPS a ariannwyd gan Ffermio Bro yn ein galluogi ni i bori a rheoli ardaloedd penodol o'r clogwyn. Maen nhw hefyd yn gwella diogelwch ein da byw drwy eu hatal rhag crwydro i ardaloedd peryglus. Maent o fudd rheoli enfawr i'r cynefin a'r da byw sy'n pori. Rydym yn hynod o ddolchgar gan na fyddai modd i fuches sugno fechan gyfiawnhau'r gost.

TOM HIGGS
Ffermwr

Galluogodd y prosiect hwn i mi ymgymryd â gwaith hanfodol na fyddai fel arall wedi cael ei wneud. Mae'n ein galluogi ni i gydweithio â'n cymdogion er budd natur, a bu'r hyblygrwydd a'r cyngor a gawsom gan dîm Ffermio Bro yn amhrisiadwy.

Y tîrfeddiannwr



Llŷn
Tirwedd
Cenedlaethol

Llŷn
National
Landscape

Tŷ Fry Cydweithio i warchod y frân goesgoch

Mae Tŷ Fry, a leolir yn Uwchmynydd ger pen eithaf Penrhyn Llŷn, yn rhan o glwstwr newydd o ffermydd.

Mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar reoli'r pwysau pori er budd y frân goesgoch yn yr ardal – yn ogystal â gwella cysylltedd ar draws y dirwedd.

Roedd y prosiect yn cynnwys adsefydlu'r llethrau pridd sy'n nodweddiadol o'r ardal, gan alluogi'r porwr i reoli'r pwysau stoc ar rannau llai o gaeau er budd y frân goesgoch. Cafodd gwrychoedd newydd eu plannu a'r rhai presennol eu rheoli a'u hadfer i gynyddu cysylltedd cynefinoedd ac i beillwyr elwa ohonynt. Ar ôl ymgysylltu â'r RSPB, yn dilyn pryderon y byddai gwrychoedd newydd yn dinistrio cynefinoedd porthi'r fran goesgoch, cytunwyd bod y risgiau'n ddibwys o gymharu â manteision cyffredinol y gwaith.

Mae'r ffermwyr sy'n gweithio ar y cyd bellach yn gallu rheoli'r cynefinoedd newydd eu creu hyn yn yr hirdymor, gan fod o fudd i ffermwyr a natur fel ei gilydd ar raddfa na fyddai wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth Ffermio Bro.

Dôlwernen Rheoli llifogydd yng Nghwm Gwaun

Tyddyn yng Nghwm Gwaun ydy Dôlwernen, tirwedd lle mae coetiroedd hynafol lled-naturiol yn amlwg iawn. Cafod y tyddyn ei brynu'n ddiweddar gan y perchnogion newydd Molly a Brynmor, ac roedden nhw'n awyddus i reoli'r tir mewn modd oedd yn cyd-fynd â'r dirwedd o'i amgylch.

Roedd y cais gwreiddiol yn canolbwyntio ar wella rheolaeth dŵr croyw, lleihau pwysau gan dda byw ar gysiau dŵr, cynyddu gorchudd coed a chynnal iechyd pridd da.

Ond wrth i'r prosiect ddatblygu, daeth amodau'r safle â heriau eraill i'r amlwg. Roedd nant neu ffrwd newydd wedi ffurfio, gan achosi symudiad silt a llifogydd ar ffordd gerllaw dro ar ôl tro drwy orlenwi cwlfer yn is i lawr y llif. Fel ymateb i hynny, cafodd y prosiect ei addasu i roi blaenoriaeth i reolaeth naturiol ar lifogydd. Roedd y gwaith yn cynnwys adfer pwll bas, adfywio ffosydd oedd yn bodoli, gosod meini mewn mannau strategol, ac agor draen i arafu llif y dŵr cyn iddo gyrraedd y cwlfer. Ynghyd â'r mesurau hyn, plannwyd oddeutu 80 o goed o 10 rhywogaeth wahanol mewn llain cysgodi i ddarparu cysgod i berllan y fferm.

Mae'r dull integredig hwn wedi lleihau symudiad gwaddodion, wedi arafu llif y dŵr yn ystod glaw trwm, ac wedi lleihau'r risg y bydd y cwlfer yn cael ei rwystro a llifogydd i'w cael ar y ffordd. Mae cadw da byw draw wedi gwella ansawdd y dŵr, ac mae plannu'r coed a'r llain cysgodi newydd yn cryfhau cysylltedd cynefinoedd ac yn helpu i gynnal iechyd hirdymor y pridd.



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park



Ry'n ni'n falch ofnadwy o'r gwaith wnaethon ni eleni gyda Ffermio Bro. Mae wedi dod â phentwr o fanteision, gan gynnwys cysgod i'n perllan, coridor bywyd gwyllt rhwng y ddwy ochr goedig i Gwm Gwaun, llai o erydu yn y parc, ac wedi atal y llifogydd tymhorol ar heol y cyngor. Rydyn ni eisoes wedi mwynhau gweld bywyd gwyllt yn defnyddio'r ardal newydd hon ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at eu gweld yn datblygu ac aeddfedu.

MOLLY & BRYNMOR
Ffermwyr



Rydyn ni wastad wedi ceisio ffermio law yn llaw â natur yma, ac mae'r prosiect hwn wedi bod o gymorth sylweddol gyda'r nod hwnnw. Rydyn ni wedi gwarchod y gwrychoedd a'r nant rhag drwg-ffeithiau posib da byw ac wedi creu coridor bywyd gwyllt sy'n cysylltu coetir oedd wedi'i ynysu yng nghanol y fferm â Choetir Hynafol Lled-Naturiol llawer mwy o faint sydd ar ymyl ein tir.

MR TREVOR NEALE
Perchennog Fferm Penarth Fach



Dyffryn Gwy
Tirwedd
Cenedlaethol
Wye Valley
National
Landscape

Fferm Penarth Fach, Llanisien Gwella cynefin torlannol a rheoli coetiroedd

Mae Fferm Penarth Fach wedi'i rhedeg fel uned cig eidion a defaid organig ardystiedig ers dechrau'r 1990au. Fodd bynnag, roedd ffermio da byw wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diweddar – gyda mentrau eraill yn sylfaen i incwm y fferm.

Nawr, gyda chymorth Ffermio Bro, mae cynhyrchu da byw cynaliadwy – mewn cytgordd â natur – yn dychwelyd i borfeydd y fferm deuluol draddodiadol hon yn Nyffryn Gwy.

Mae gwrychoedd oedd wedi'u diraddio gan ddefaid yn pori a glannau nentydd oedd wedi erydu wedi'u ffensio, gan eu gwarchod rhag anifeiliaid pori a gwella ansawdd y dŵr. Mae bylchau mewn gwrychoedd wedi'u cau ac 'argaeau sy'n gollwng' wedi'u gosod, gan leihau'r llif yn is i lawr pan fydd digwyddiadau dŵr uchel. Mae Coetir Hynafol Lled-Naturiol wedi dod dan reolaeth ystyriol a hawl Tramwy Cyhoeddus wedi'u gwella.

Ond dyw'r gwaith ddim yn dod i ben ar hynny. Mae cynlluniau cydweithredol eisoes ar waith i greu mosaig o weirgloddiau sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau ar y tir ac ar draws nifer o ffermydd cyfagos.





£2.7m

ar gael mewn **grantiau cyfalaf**
bob blwyddyn

Edrych ymlaen

O ganlyniad i lwyddiant digynsail blwyddyn gyntaf Ffermio Bro, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyllid a ddyanwyd i'r cynllun yn sylweddol. Mae £6.5m wedi ei ddyfarnu ar draws 2026-2028, gyda £5.5m yn mynd yn uniongyrchol i ffermwyr er mwyn ategu gwaith cyfalaf ar ffermydd.

Yn ychwanegol i'r cyllid cyfalaf hwn, mae dyraniad blynyddol arall ar gael i Dirweddau Dynodedig er mwyn galluogi hyfforddiant i ffermwyr a chynnig cyngor arbenigol, gan helpu i sicrhau bod prosiectau'n cael yr effaith fwyaf a'r hiraf posibl.

Yn ein blwyddyn gyntaf, roedd bron i 70% o'r prosiectau'n rhai cydweithredol - ac yn y blynyddoedd i ddod rydym yn targedu i greu llawer mwy o bartneriaethau rhwng ffermwyr. Rydym yn disgwyl y bydd bron pob prosiect yn rhai cydweithredol yn y blynyddoedd i ddod, ac mae adnoddau ar gael ar gyfer y Tirweddau Dynodedig er mwyn helpu i greu a meithrin y cydweithrediadau hyn.

Rydym hefyd bellach yn gallu ariannu prosiectau aml-flwyddyn, gan ein galluogi i gyflwyno prosiectau mwy sylweddol, trawsnewidiol a gwell. Gallai'r prosiectau hyn gynnwys cydweithrediadau mawr a ddyluniwyd i wella ansawdd dŵr a rheolaeth llifogydd ar ddalgylchoedd afonydd, adfer cynefinoedd ffridd ar ein hucheldiroedd, neu greu eangderau o laswelltiroedd llawn rhywogaethau. Er ein bod yn canolbwyntio'n bennaf ar natur, byddwn hefyd yn ariannu prosiectau sy'n gwella hawliau tramwy yn y Tirweddau Dynodedig, yn ogystal â'r rhai sy'n fanteisiol i nodweddion archaeolegol a henebion cofrestredig.

Mae Ffermio Bro yn rhan o Haen Gydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), ac mae wedi'i gyfuno â chynigion ehangach y SFS.

Mae ein swyddogion Ffermio Bro, y mae nifer a chanddynt gefndir amaethyddol, wedi'u hyfforddi i gyfeirio ffermwyr at gyfleoedd Haen Opsiynol y SFS fel maent yn codi - fel grantiau creu coetiroedd - lle mae'r rhain yn fwy addas i'w hanghenion.

Mae ffermwyr wedi dweud wrthym faint maen nhw wedi elwa o'r arweiniad cyflawn a'r cyngor clir a gawsant gan swyddogion Ffermio Bro - gan gefnogi pob agwedd ar y broses ymgeisio wrth fwrdd cegin y fferm. O ystyried llwyddiant y rolau hyn, bydd gennym fwy o swyddogion ar waith y flwyddyn nesaf, gan ymestyn ein cyrhaeddiad ymhellach. Mae Ffermio Bro eisoes wedi denu nifer o ffermwyr nad ydynt yn gyffredinol wedi cymryd rhan yn y math yma o gynllun - ac mae cyrraedd y ffermwyr hyn yn un o'n prif amcanion ar gyfer y dyfodol.

Gyda thros £2.7m ar gael bob blwyddyn mewn grantiau cyfalaf, bydd Ffermio Bro yn cyflawni buddion sylweddol i natur a ffermio yn y blynyddoedd i ddod. Gall ffermwyr a pherchnogion tir wneud cais nawr - cysylltwch â'ch Tirwedd Dynodedig / Ddynodedig leol.



Tirweddau
Cymru
Landscapes
Wales



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am grant Ffermio Bro, yna cysylltwch â'ch Awdurdod Parc Cenedlaethol neu'ch corff Tirwedd Cenedlaethol lleol. Mae manylion i'w cael ar www.tirweddaucymru.org.uk/ffermio-bro-cymraeg

Am ragor o wybodaeth am Ffermio Bro, cysylltwch â'r Rheolwr Cynllun Cenedlaethol, Lawrence Harris drwy contact@landscapeswales.org.uk



Ynys Môn
Tirwedd
Cenedlaethol
Anglesey
National
Landscape



Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyffwrdd
Tirwedd
Cenedlaethol
Clwydian Range
and Dee Valley
National
Landscape



Bannau
Brycheiniog



Gŵyr
Tirwedd
Cenedlaethol
Gower
National
Landscape



Llyn
Tirwedd
Cenedlaethol
Llyn
National
Landscape



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park



Dyffryn Gwy
Tirwedd
Cenedlaethol
Wye Valley
National
Landscape